# CYLCHLYTHYR
# Y Pennaeth

## Ionawr
## 2022

# Ionawr 2022


BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI I GYD!

# CROESO 'NÔL!

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth yn dilyn dychweliad hynod lwyddiannus. Mae presenoldeb wedi gwella ac mae hi wedi bod yn fendigedig gweld pawb yn setlo yn ôl i'r ysgol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn nodi y gall Cymru ddychwelyd i lefel zero erbyn diwedd y mis.

Gyda niferoedd yr ysgol wedi cynyddu'n sylweddol ers Ionawr 2020, mae hi wedi bod yn bleser cael croesawu nifer o staff newydd i'n plith.

Pleser mawr y tymor hwn yw cael croesawu Lora Owen i'r adran Gymraeg, a Victoria Williams i'r adran Wyddoniaeth.




Wedi gwyliau'r Pasg byddwn yn croesawu yn swyddogol ein Arweinydd Maes Saesneg sef Lois Rowlands a bydd Lora Stephen yn ymuno â ni fel Arweinydd y Ganolfan Gynhwysiad. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bydd Steffan Dafydd yn ymuno efo'r Adran Gymraeg ym mis Medi.

# Mwy i ddod...

Ond dyma'r newyddion da! Mae ein niferoedd yn parhau i godi a byddwn yn cychwyn ar broses benodi arall a hynny mewn sawl maes!

# Ein cynlluniau at y Pasg

## Cefnogi disgyblion blynyddoedd 10-13 baratoi tuag at eu arholiadau allanol

Rydym wedi sefydlu partneriaeth gyda chwmni 'Learning Performance' er mwyn cefnogi ein dysgwyr ymhellach.

Bydd y cwmni yn ymweld â'n disgyblion ym mis Mawrth ac rydym wedi cytuno ar raglen gynhwysfawr o gefnogaeth.




22/03/2022 - BLWYDDYN 10 - Gweithgaredd drwy'r dydd

4 cyflwynydd yn gweithio efo grwp cyfan am y diwrnod ar raglen taro'r marc. Gweithdy rhyngweithiol ac ysbrydoledig sy'n annog disgyblion i gael gwared o feddylfryd negyddol. Bydd hyn yn codi uchelgais ac yn helpu myfyrwyr i gael y graddau maent yn eu haeddu.

"Our interactive and motivational Hit the Mark workshop encourages pupils to fling any negative thoughts such as, "I can't do it," or "it's too hard", out of the window.

We show them how they can learn, revise, and prepare for exams through the effective use of metacognition, building students' confidence, resilience and belief in their own ability to succeed.

All this raises achievement and helps students get the grades they deserve."

23/03/2022 - BLWYDDYN 11 - Gweithgaredd drwy'r dydd

4 cyflwynydd yn gweithio efo grwp cyfan am y diwrnod ar raglen anelu am y sêr. Gweithdy astudio cyflym a rhyngweithiol i ymestyn a herio myfyrwyr TGAU. Byddwn yn dysgu pawb ar sgiliau astudio gan eu harfogi i astudio'n gallach yn hytrach na'n hirach.

"This fast paced, interactive study skills workshop is designed to challenge and stretch GCSE students.

We show students how to learn, revise and prepare for exams effectively and efficiently, by equipping them with creative and innovative techniques that make learning easier!

We also show students how to overcome the fear of failure, practical stress management techniques, and the power of positive visualisation.

All this leaves students equipped with suitable techniques and tools for the challenges that lay ahead!"

24/03/2022 - BLWYDDYN 12 & 13 - Gweithgaredd drwy'r dydd

4 cyflwynydd yn gweithio efo grwp cyfan am y diwrnod Sgiliau Astudio Pellach. Mae'r naid o CA4 i CA5 yn un mawr a bydd y cwrs yn cynnwys awgrymiadau ar sut i astudio'n annibynnol, rheoli amser a chael trefn.

"The transition from KS4 to KS5 is one of the biggest leaps students will make in their education, and that is without the added pressures COVID has brought on our students. Some students thrive with the extra freedom and responsibility, but many more struggle.

Our motivational and inspiring Advanced Study Skills workshop equips Year 12 or Year 13 students with effective learning strategies so they can grow to be successful, independent and resilient learners.

The programme looks at content including:

* Independent Learning, Time Management and Organisation * Note-taking and Condensing information
* Association Maps * Effective Reading * Research Skills
* The Review Philosophy, including Spaced Practice * Stress Management and Procrastination *Growth Mindset and Motivation

We know that students have the ability to flourish in KS5, and beyond!"

# CLYBIAU BODED

Mae ein clybiau yn mynd o nerth i nerth y tymor hwn!

Isod, mae'r rhestr ddiweddaraf o'r cyfleoedd sydd ar gael - ac mae rhywbeth yma at ddant pawb! Diolch enfawr i'r staff sy'n eu cynnal ac i chi fel rhieni am gefnogi drwy fod yn dacsi adref!

Cysylltwch â mi os yw trefnu trafnidiaeth adref yn rhwystro eich plentyn rhag gallu mwynhau ag ymuno efo unrhyw glwb ar ôl ysgol.

Clybiau Boded

## Dydd Llun

| Be? | Pryd + Lle |
|---|---|
| Rygbi Hogia 7&8 | Cae, 3-4:15pm |
| Cyfrifiaduron | Cinio, 26 |
| Theori A.Gorff TGAU | Cinio, Gampfa |
| Theori A. Gorff Lefel A | 3-4:15pm |
| Siop Holi | Cinio, Ystafell y Nyrs |
| Clwb Salon | Salon, 3-5pm |
| Pêl Rwyd bl 7 | Cinio, Gampfa |
| Clwb Celf | 12:45-1:15pm, 12 |
| Pêl Fasged | 12:30-1:10pm, Gampfa |

## Dydd Mawrth

| Be? | Pryd + Lle |
|---|---|
| Pêl-rwyd 8 a 9 | Cinio, Gampfa |
| Cyfrifiaduron | Cinio, 26 |
| Côr | Cinio, 14 |
| Tabletop | Cinio, 15 |
| Rygbi 11, 12 & 13 | 3-4:15pm, Gampfa |

## Dydd Mercher

| Be? | Pryd + Lle |
|---|---|
| Gymnasteg - Tymbl | Cinio, Gampfa |
| Pêl-droed 9&10 | Cinio, Astroturf |
| Pêl-droed 7&8 Genod & Hogia | 3-4:15pm, Gampfa |
| Hoci 10&11 | 3-4:15pm |
| Cyfrifiaduron | Cinio, 26 |
| Coginio | 3-5pm, 22 |
| Clwb Cerdd | 3-4:30pm, 14 |
| Sesiwn 'Drop-in' efo Iola | Cinio, 22 |
| Codi pwysau | 3-4:30pm, Gampfa |

## Dydd Iau

| Be? | Pryd + Lle |
|---|---|
| Parkhour (pawb) | Cinio, Gampfa |
| Pêlrwyd 10&11 | Cinio, Gampfa |
| Rygbi 9&10 | 3-4:15pm, Gampfa |
| Hoci 7,8 a 9 | 3-4:15pm, Gampfa |
| Cyfrifiaduron | Cinio, 26 |
| LGBTQ+ | Cinio, 22 |
| Clwb Hanes 7&8 | Iau 1af bob mis 3-4pm, 5 |
| Clwb Urdd bl7 | Cinio, ardal bl7 |
| Clwb Busnes 10&11 | 3:15-4:15pm, 26 |

## Dydd Gwener

| Be? | Pryd + Lle |
|---|---|
| Rygbi Merched | 3-4:15pm |
| Cyfrifiaduron | Cinio, 26 |
| Ukulele | Cinio, 14 |
| Clwb Celf | 12:45-1:15pm, 12 |
| Pêl fasged | 3-4:15pm, Gampfa |
| Clwb ffermio | 3-5pm, Bro Alaw |

Croeso i bawb / All welcome



# GWELLIANNAU I'R SAFLE AC ADEILADAU

**FFENS**

Rydym wedi gosod ffens yn nhu blaen yr Ysgol, a golyga hyn fod y safle bellach yn gwbl ddiogel.

Diolch i bawb am addasu mor gyflym i'r trefniadau newydd o arwyddo allan drwy ddefnyddio'r brif fynedfa yn unig ar gyfer gadael tir yr ysgol.

**OFFER CHWARAE A FFITRWYDD AWYR AGORED**

Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan i osod offer ffitrwydd awyr agored ar y Cae Coch. Mae'n gam cyffrous ymlaen i'r ysgol sy'n buddsoddi yn helaeth yn y maes pwysig iawn o Iechyd a Lles. Bydd pob disgybl yn cael cyfle i elwa o'r offer newydd hwn ac i gadw'n heini!

Mae'r cynllun hefyd yn rhan o'n paratoadau tuag at y Cwricwlwm Newydd a fydd hefyd yn cynnwys ail ystafell ddosbarth awyr agored.







# CEFNOGI DISGYBLION BLWYDDYN 9 - DEWISIADAU

## Y BROSES O DDEWIS PYNCIAU AR GYFER TGAU A CHYRSIAU GALWEDIGAETHOL

Mae disgyblion blwyddyn 9 yn barod wedi dechrau'r broses o gysidro eu hopsiynau, a byddent yn derbyn llawlyfr dewisiadau i'w cynorthwyo ymhellach.  Byddwn hefyd yn cynnal noson ddewisiadau lle bydd cyfle hefyd i ddisgyblion drafod gyda staff Coleg Menai ar gyfer cyrsiau partneriaeth.

NOS LUN
7 CHWEFROR 2022
CYFARFOD ZOOM

Cyflwyniad i'r broses ddewis pynciau a chyfle i holi

NOS FAWRTH
8 CHWEFROR 2022
AR LEIN ARFEROL

Noson rieni dewisiadau a chynnydd yn y Pynciau Craidd

## CWRICWLWM AC AMSERLEN BLWYDDYN 9

Yn dilyn llwyddiant llynedd bwriadwn addasu cwricwlwm ac amserlen blwyddyn 9 ar ôl y Pasg.  Y bwriad fydd cychwyn cyrsiau TGAU ffurfiol yn y pynciau craidd sef Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg, ac am weddill yr amserlen bydd y disgyblion yn rhan o weithgorau thematig ar gyfer paratoi at TGAU.  Mae'n fwriad gennym ar ôl gwyliau'r Sulgwyn, gychwyn cyrsiau TGAU ymhob pwnc.



# GWRANDO AR DDISGYBLION

**Rydym yn gwrando a gweithredu!**

## Fe ddywedoch chi!

Da ni angen newid y wisg ysgol!

Mae safon y toiledau angen sylw!

Da ni angen lot mwy o le i fwyta ein cinio!

## Fe wnawn ni!

Gynllunio i gael ardaloedd bwyta ar dir yr ysgol ac mewn trafodaethau efo cwmni Chartwells.

Gynnal ymgynghoriad ar y wisg ysgol yn fuan.

Buddsoddi'n sylweddol i wella ansawdd y toiledau.

Mae'r pod gweini bwyd yn cyrraedd mis nesaf, ac mae cynlluniau wedi eu cymeradwyo i osod man cysgodol i fwyta tu allan.  Byddwn hefyd yn archebu meinciau a byrddau tu allan.

Byddwn yn rhannu holiadur efo chi ynglyn â'r wisg ysgol cyn hanner tymor.

Mae cynlluniau wedi eu cymeradwyo ar gyfer gwella toiledau, gyda lloriau newydd a drysau newydd ynghyd â phaentio tu mewn, byddwn yn cychwyn gyda thoiledau ardal Bro Alaw a'r Gampfa.









# RHEOLAU'R YSGOL

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus ond hefyd i atgoffa pawb o reolau'r ysgol.

**1. Ffonau Symudol**

Nid oes caniatâd i neb ddefnyddio ffonau yn y gwersi nac ar goridorau'r ysgol. Rydym yn gweithio ar ddiweddaru ein polisi ac yn awyddus i ganfod barn rhieni yn hyn o beth.

**2. Diodydd Egni**

Ni chaniateir diodydd egni o unrhyw fath yn yr ysgol a byddem yn ddiolchgar o dderbyn cyd-weithrediad chi fel rhieni i sicrhau hyn.

**3. Gwisg Ysgol**

Disgwylir i bawb wisgo gwisg ysgol lawn bob dydd. Mae manylion y wisg ysgol ar wefan yr ysgol yn ardal Disgyblion. Diolchwn i bawb am eu cydweithrediad efo hyn. Os ydy costau gwisg ysgol yn peri problem i chi gofynnir i chi gysylltu efo ni i drafod opsiynau cymorth sydd ar gael.







**Dyddiadau Pwysig i'r Calendr**

**Dydd Llun, 31 Ionawr 2022 - HMS - Ysgol ar gau i ddisgyblion**
**Dydd Gwener, 18 Chwefror 2022 - HMS - Ysgol ar gau i ddisgyblion**
**Dydd Llun 21 Chwefror - Dydd Gwener 25 Chwefror - Gwyliau Hanner Tymor**
**Dydd Llun, 28 Chwefror 2022 - HMS - Ysgol ar gau i ddisgyblion**

Pennaeth: Paul Matthews-Jones
ffôn: 01407 741000
https://www.ysgoluwchraddbodedern.org
facebook: yubodedern1
twitter: @yubodedern